Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cyllid Bagloriaeth Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2026
Petitions Committee | 12 January 2026

**Cyfeirnod:** RS25/12648

## Cyflwyniad

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1540

**Teitl y ddeiseb:** Cael gwared ar y system gyllido ystrywus sy'n gorfodi myfyrwyr i astudio Bagloriaeth Cymru

**Geiriad y ddeiseb:** Ioan Armstrong a Sam Bartlett: Rydym yn fyfyrwyr Safon Uwch yng Ngholeg Sir Gâr, Campws y Graig, Llanelli, sydd wedi llunio'r ddeiseb hon fel llwyfan o blaid dewis myfyrwyr ac yn erbyn cymhwyster gorfodol Bagloriaeth Cymru.

Er gwaethaf honiadau gan Lywodraeth Cymru nad yw'r cymhwyster hwn yn orfodol, gwnaethom ddarganfod cynllun ariannu ystrywus drwy Gais Rhyddid Gwybodaeth sy'n dangos bod colegau'n derbyn £1,000+ mewn cyllid ychwanegol fesul myfyriwr trwy orfodi Bagloriaeth Cymru ar fyfyrwyr.

Cais Rhyddid Gwybodaeth: £3,606/myfyriwr am 3 Lefel UG/A heb gymhwyster Bagloriaeth Cymru, £4620/myfyriwr am 3 Lefel UG/A + cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Ymchwil y Senedd: Yn ôl y myfyrwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad, mae Bagloriaeth Cymru yn "cymryd llawer o amser" ac nid ydynt yn gweld gwerth y cymhwyster.

Comisiynydd Plant Cymru: Beirniadodd Llywodraeth Cymru am gael targed o fabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol ("target of universal adoption"). NID

yw mabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol er budd gorau pob dysgwr ifanc.

Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014: Mae’r Ddeddf hon yn sicrhau ansawdd ac atebolrwydd mewn addysg bellach, ond caiff ei thanseilio oherwydd pwysau ariannol a diffyg eglurdeb o ran statws Bagloriaeth Cymru fel cymhwyster nad yw'n orfodol.

Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022: Mae’r Ddeddf hon yn nodi disgwyliad cyfreithiol clir bod sefydliadau’n darparu addysg o’r ansawdd uchaf posibl. Caiff y Ddeddf ei thanseilio oherwydd bod colegau'n cael eu cosbi'n ariannol os nad yw myfyrwyr yn cofrestru i astudio Bagloriaeth Cymru.

Mae WalesOnline wedi cyhoeddi erthygl am ein hymgyrch.

The text provided above is submitted by the petitioner. The petitions team make every effort to ensure it preserves their authentic voice. This text has not been verified for accuracy, or errors, and may contain unverified opinions or assertions.

Mae'r testun uchod yn cael ei gyflwyno gan y deisebydd. Mae'r tîm deisebau yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn cadw ei lais dilys. Nid yw'r testun hwn wedi'i wirio am gywirdeb, neu wallau, a gall gynnwys barn neu honiadau heb eu gwirio.

# 1. Cefndir

Roedd Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru yn 2015 yn golygu y cafodd Bagloriaeth Cymru newydd ei chyflwyno gyda pholisi o fabwysiadu’r cymhwyster ar lefel gyffredinol.  Roedd hyn yn golygu bod y cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gael i bob ysgol a choleg Addysg Bellach i’w gynnig i ddysgwyr ond nad oedd yn orfodol i’r holl ddysgwyr ei hastudio.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys Bagloriaeth Cymru, fel cymhwyster agregedig, nad yw ar gael i ddysgwyr mwyach. Dyfernir Bagloriaeth Cymru am y tro olaf yn Haf 2026.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod Bagloriaeth Cymru Uwch wedi'i disodli gan y Fagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch ym mis Medi 2023, a fydd yn cael ei dyfarnu o Haf 2025.

Fodd bynnag, mae'r Dystysgrif Her Sgiliau (a oedd yn ofynnol i'r rhai a oedd yn astudio Bagloriaeth Cymru) yn parhau fel cymhwyster unigol sy’n cael ei raddio (ar lefel TGAU) a bydd yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr sy'n dechrau Blwyddyn 10 ym mis Medi 2025 a mis Medi 2026. Yna bydd y Dystysgrif yn cael ei disodli gan y Gyfres Sgiliau (fel rhan o'r cynnig cymwysterau 14 i 16 llawn) o fis Medi 2027 ymlaen.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw'r Dystysgrif Her Sgiliau yn orfodol gan nad oes unrhyw ofynion statudol i ddysgwyr ymgymryd ag unrhyw gymhwyster. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid cynnig y Dystysgrif i’r holl ddysgwyr Blwyddyn 10 mewn ysgolion gan y bydd hyn yn sicrhau bod gan ddysgwyr 'fynediad at gwricwlwm eang a chytbwys' a 'chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau ymarferol mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan sicrhau set gyflawn o sgiliau y gellir eu haddasu’.

Er eu bod am i bob dysgwr Blwyddyn 10 gael cynnig y Dystysgrif Her Sgiliau, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod efallai nad y Dystysgrif yw'r dewis cywir i rai dysgwyr ac y dylai ysgolion felly fod yn rhoi cyfleoedd sydd er budd pennaf eu dysgwyr ac “wrth benderfynu a ellir eithrio dysgwr rhag dilyn y Dystysgrif, rydym [Llywodraeth Cymru] yn disgwyl i ysgolion ddefnyddio'u barn broffesiynol".

Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *Dylid cynnig Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch i bob dysgwr 16 i 19 oed sy’n dilyn cwrs 2 flynedd.  Fel rheol, caiff ei dilyn ochr yn*

> *ochr â chymwysterau Lefel 3 eraill, er enghraifft cyfuniad o gymwysterau Safon Uwch a (neu) gymwysterau galwedigaethol.*

Yn debyg i'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes unrhyw ofynion statudol i ddysgwyr ymgymryd ag unrhyw gymhwyster a'u bod yn disgwyl i ysgolion a cholegau ddefnyddio'u barn broffesiynol, gan roi ystyriaeth ddyledus i lesiant pob person ifanc a'i allu i gyflawni ei lawn botensial.

Noder, mae testun y ddeiseb yn ogystal â'r erthygl WalesOnline y cyfeirir ati yn y ddeiseb yn amlinellu cydnabyddiaeth y deisebwyr bod Llywodraeth Cymru wedi datgan yn flaenorol nad yw Bagloriaeth Cymru yn orfodol.

Yn hytrach, mae'r deisebwyr yn honni bod Llywodraeth Cymru yn gwneud Bagloriaeth Cymru yn orfodol i bob pwrpas oherwydd "system gyllido ystrywus", yn ôl testun y ddeiseb. Mae'r deisebwyr yn amlinellu gwybodaeth o gais Rhyddid Gwybodaeth y maent yn awgrymu sy'n dystiolaeth o hyn:

> *Cais Rhyddid Gwybodaeth: £3,606/myfyriwr am 3 Lefel UG/A heb gymhwyster Bagloriaeth Cymru, £4620/myfyriwr am 3 Lefel UG/A + cymhwyster Bagloriaeth Cymru.*

**Nid yw'r enghraifft hon yn gymhariaeth union rhwng dysgwyr sy'n astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.** Mae'r enghraifft a roddwyd gan y deisebwyr yn cymharu dysgwr sy'n astudio ar gyfer 3 chymhwyster Safon UG/Safon Uwch â dysgwr sy'n astudio ar gyfer 3 chymhwyster Safon UG/Safon Uwch yn ogystal â chymhwyster Bagloriaeth Cymru (sy'n golygu bod y dysgwr yn astudio ar gyfer 4 cymhwyster). **Gweler Adran 2 isod am gymhariaeth agosach a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.**

O ran testun y ddeiseb hon, tynnodd yr erthygl WalesOnline sylw at y ffaith bod y deisebwyr wedi cael gwybod drwy'r cais Rhyddid Gwybodaeth hwn fod Coleg Sir Gâr wedi cael mwy na £360,000 yn flynyddol am gynnal Bagloriaeth Cymru.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oes unrhyw ofynion statudol i ddysgwyr ymgymryd ag unrhyw gymhwyster, mae nifer o sefydliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gymryd rhan ym Magloriaeth Sgiliau Cymru Uwch neu'n awgrymu y bydd pob dysgwr yn ymgymryd â'r cymhwyster. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria

- Coleg Gwent
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant

Yn ogystal â cholegau Addysg Bellach yn gwneud astudio'r cymhwyster yn orfodol, nododd briff ymchwil blaenorol ynghylch deiseb yn 2020 fod rhai ysgolion unigol wedi ei gwneud yn orfodol i'w myfyrwyr.

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *Nid oes cyllid pwrpasol ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, ac nid oes cymhelliant ariannol i ysgolion a cholegau i hyrwyddo'r cwrs hwn…mae hyn yn golygu bod ysgolion a cholegau yn derbyn yr un lefel o gyllid ar gyfer dysgwr sy'n astudio 3 Safon Uwch a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch ag ar gyfer dysgwr sy'n astudio 4 Safon Uwch.*

Mae'r esboniad hwn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn rhoi cymhariaeth agosach rhwng dysgwr sy'n astudio'r cymhwyster o'i gymharu â dysgwr heb y cymhwyster na'r hyn a nodir yn nhestun y ddeiseb.

At hynny, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau statudol ar gyfer y corff ariannu a rheoleiddio, Medr, ar Gwricwla Lleol 16-19. Awgrymir y bydd y canllawiau hyn yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod myfyrwyr yn cael mynediad at ystod eang o gyrsiau i'w hastudio yn eu haddysg ôl-16, ac y byddant yn disgrifio rôl y Fagloriaeth Sgiliau Uwch o fewn cwricwla lleol.

Cyflwynwyd Cais Rhyddid Gwybodaeth yn blaenorol i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2025 ynghylch cyllid a roddwyd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion mewn perthynas â chymeradwyo Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch fel opsiwn gorfodol wrth dderbyn dysgwyr i astudio Safon Uwch yn y coleg. Awgrymodd Llywodraeth Cymru nad oedd ganddi'r wybodaeth a ofynnwyd amdani ond y gallai hyn fod gyda Medr.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad ar ei ymchwiliad i statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Tynnodd yr adroddiad sylw at bryderon yn ymwneud â'r dryswch ynghylch a oedd Bagloriaeth Cymru yn orfodol yn ogystal â pholisi mabwysiadu cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Yn benodol, nododd rhai rhanddeiliaid fel Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru bryderon ynghylch anghysondebau wrth gyflawni'r polisi mabwysiadu cyffredinol, gan nodi enghraifft lle nad yw Llywodraeth Cymru ei hun yn ei gefnogi, er ei bod yn disgwyl i'r cymhwyster gael ei fabwysiadu'n gyffredinol. Dywedodd Cymdeithas Arweinwyr Colegau ac Ysgolion Cymru:

> *We have come across cases of parents who have contacted the Welsh Government and demanded to know why the Welsh Bacc was compulsory, to be told by the Welsh Government officials, 'It's not. [..] And that really cuts the ground under the feet of heads who are trying to do something they think is a really important part of the Welsh education scene.*

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad ar ddarparu mwy o arweiniad ar Fagloriaeth Cymru.

Er bod yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn yn 2019, nid yw'r term 'mabwysiadu cyffredinol' yn ymddangos mwyach yn y canllawiau ar gyfer Bagloriaeth Cymru, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Fodd bynnag, defnyddir y term o fewn Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru ar 'Darparu'r Dystysgrif Her Sgiliau fel rhan o Fagloriaeth Cymru' (hefyd o 2019).

Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, pan ofynnwyd iddi egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar fabwysiadu cyffredinol, dywedodd y Gweinidog Addysg ar y pryd, Kirsty Williams, fod disgwyl i bob sefydliad fod mewn sefyllfa i gyflwyno Bagloriaeth Cymru gan y dylai fod yn hawl i bob myfyriwr yng Nghymru ac y dylid ystyried bod cymryd y cymhwyster yn beth arferol. Fodd bynnag, cydnabu'r angen am hyblygrwydd yn y system, gan awgrymu y dylai fod tystiolaeth pam nad yw unrhyw ddysgwr penodol yn astudio Bagloriaeth Cymru.

Nododd adroddiad y Pwyllgor hefyd fod rhai rhanddeiliaid wedi crybwyll hyfforddiant arall yn seiliedig ar sgiliau a oedd o bosibl yn well na Bagloriaeth Cymru. Ychwanegodd Cadeirydd Colegau Cymru a Phrif Swyddog Gweithredol Grŵp Llandrillo Menai ar y pryd fod cyllid yn sbarduno ymddygiadau:

> *...although we always try and put the learner first, funding does drive behaviours, and the Welsh Bacc is fundable; Career Ready isn't. So, yes, there are options out there, but because we're so focussed on qualifications and we will only fund qualifications, that drives certain behaviours.*

Yn fwy diweddar, yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Hydref 2023, wrth drafod Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, dywedodd Jeremy Miles (y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar y pryd) y byddai'r cymhwyster "yn cael ei dilyn gan y mwyafrif o ddysgwyr Safon Uwch 16 i 18 oed".

Mae Bagloriaeth Cymru hefyd wedi codi fel pwnc cwestiynau ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Ym mis Ionawr 2025, cyflwynodd Andrew RT Davies gwestiwn ysgrifenedig yn gofyn faint o brifysgolion Grŵp Russell sy'n cydnabod Bagloriaeth Cymru. Mewn ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod pob prifysgol yng Ngrŵp Russell yn gwerthfawrogi'r sgiliau y mae dysgwyr yn eu datblygu drwy Fagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, er bod y cymwysterau y mae prifysgolion yn eu cynnwys ac yn eu derbyn yn eu cynigion yn amrywio yn ôl cwrs ac yn ôl sefydliad, ac na fyddent yn cynnwys Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch ym mhob achos.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried nifer o ddeisebau sy'n ymwneud â Bagloriaeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

- Dileu Bagloriaeth Cymru orfodol i fyfyrwyr sydd am fynd i'r Brifysgol (2020)
  - Caeodd y Pwyllgor y ddeiseb yn ei gyfarfod olaf o'r Bumed Senedd fel rhan o'i adolygiad o'r holl ddeisebau yr oedd yn eu hystyried, yng ngoleuni'r ffaith bod etholiad yn yr arfaeth a'r ystyriaeth o'r mater a gafwyd hyd hynny.
- Gwneud i brifysgolion Cymru ystyried Bagloriaeth Cymru fel Safon Uwch (2020)
  - Yng ngoleuni safbwynt y Gweinidog Addysg mai mater i brifysgolion yw sefydlu gofynion mynediad eu cyrsiau, a chan nodi'r gwaith sydd ar droed yn ymateb i argymhellion a wnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn flaenorol, cytunodd y pwyllgor nad oes llawer mwy y gallai'r Pwyllgor ei gyflawni. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am godi'r mater.

- Cael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru (2019).
  - Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru a chytuno i gau'r ddeiseb yn sgil dileu'r ymarfer penodol y cyfeiriwyd ato yn y ddeiseb, gwaith craffu ar gymhwyster Bagloriaeth Cymru a wnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac ymrwymiad y Gweinidog i gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar y Fagloriaeth a'r gwaith o'i chyflwyno.
- Dileu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (2016)
  - Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y deisebau a chytunodd i gau'r ddeiseb gan nad yw'n bosibl nodi sut i weithredu mewn cysylltiad â'r ddeiseb ymlaen yn absenoldeb cyswllt gan y deisebydd, ac o ystyried yr ymrwymiad pendant i Fagloriaeth Cymru a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol.

Yn ogystal â'r deisebau hyn, mae nifer o ddeisebau a wrthodwyd yn ymwneud â Bagloriaeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf:

- Pwnc Bagloriaeth Cymru ar gyfer disgyblion Addysg Uwch a sut na ddylai fod yn orfodol (2024) [Wedi'i gwrthod gan fod deiseb eisoes yn bodoli ynghylch y mater hwn]
- Caniatáu i Fagloriaeth Cymru fod yn gwrs dewisol ar gyfer myfyrwyr addysg bellach (2024) [Wedi'i gwrthod gan nad oedd digon o lofnodion wedi'u casglu]
- Gwneud Bagloriaeth Cymru yn gwrs dewisol i fyfyrwyr addysg bellach (2024) [Wedi'i gwrthod oherwydd bod cynnwys y ddeiseb eisoes yn cael sylw yng ngwaith y Llywodraeth neu'r Senedd]
- Dileu cymhwyster Bagloriaeth Cymru ym mhob ysgol uwchradd ac addysg uwch (2022) [Wedi'i gwrthod gan nad oedd digon o lofnodion wedi'u casglu]
- Diddymu'r Fagloriaeth Uwch Cymru orfodol (2021) [Wedi'i gwrthod gan fod y Pwyllgor Deisebau wedi ystyried deiseb ar y mater hwn o fewn y flwyddyn flaenorol]
- Cael gwared ar Fagloriaeth Cymru fel pwnc gorfodol (2021) [Wedi'i gwrthod gan fod y Pwyllgor Deisebau wedi ystyried deiseb ar y mater hwn o fewn y flwyddyn flaenorol]

- Atal Safon Uwch Bagloriaeth Cymru rhag bod yn orfodol mewn colegau chweched dosbarth yng Nghymru (2021) [Wedi'i gwrthod gan fod y Pwyllgor Deisebau wedi ystyried deiseb ar y mater hwn o fewn y flwyddyn flaenorol]

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.